# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Nick Davies | Adran Etholiadol: | Uplands |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Gyda'm nghydweithwyr ward, cynheliais gymorthfeydd yn Farchnad Uplands yn rheolaidd. Gan fod llawer o bobl yn ymweld â'r digwyddiad cymunedol mae hyn yn sicrhau'r gweledfedd a'r cyswllt gorau â phreswylwyr.

Rwyf wedi mynd i'r afael â phryderon preswylwyr am ddwysedd tai amlfeddiannaeth gan drefnu deisebau yn erbyn ceisiadau cynllunio ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Rwyf hefyd wedi mynd i'r afael â phryderon preswylwyr am dai amlfeddiannaeth dan rheolaeth wael, sy'n faich ar ansawdd bywyd y rhai sy'n byw ynddynt ac yn agos iddynt.

Rwyf mynd i'r afael â phryderon preswylwyr am ddwysedd traffig a thagfeydd y tu allan i ysgolion yn y ward ac am broblemau parcio'n gyffredinol.

Rwyf wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda phreswylwyr megis cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT), gan ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac rwyf wedi gweithio gyda'r heddlu i geisio mynd i'r afael â hyn er budd preswylwyr.

Rwyf wedi cefnogi ymdrechion Cymdeithas Masnachwyr Uplands i wella'r amgylchedd masnachol a phreswyl yn Uplands a Brynmill. Rwyf wedi cefnogi marchnad Uplands a gŵyl Do Not Go Gentle.

Hyd at fis Mehefin 2017, pan orffennodd fy nhymor, roeddwn yn llywodraethwr yn Ysgol Brynmill. Defnyddiais fy nghyllideb gymunedol i sicrhau bod y ddwy ysgol gynradd yn y ward wedi derbyn y cyfarpar TG yr oedd eu hangen arnynt.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 4 | / | 9 | 44 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 16 | 75 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 8 | / | 13 | 62 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **27** | **/** | **42** | **64** | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynhwysiad Addysg | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Gweithgor Tai Amlfeddiannaeth | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Panel Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | 1 | / | 6 | 17 | % |
| **CYFFREDINOL** | **3** | **/** | **10** | **30** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Fi oedd y hyrwyddwr trafnidiaeth gynaliadwy'r cyngor. Trafnidiaeth gynaliadwy yw unrhyw fodd o deithio nad yw'n gar preifat, megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Yn y rôl hon rwyf wedi gweithio gyda chydweithwyr o'r Cabinet a'r cyngor, swyddogion, y prifysgolion a'r gweithredwyr bysus yng nghyd-destun y Bartneriaeth Ansawdd Bysus er mwyn gwella'r rhwydwaith a'r isadeiledd i sicrhau bod taith bws yn ddewis deniadol ar gyfer bobl Abertawe.
Rwyf wedi gweithio gyda swyddogion a sefydliadau beicio megis Wheelrights a Sustrans wrth wella ac ehangu'r rhwydwaith beicio fel bod pobl yn ystyried beicio i'r gwaith, i astudio, i'r siopau neu i gymdeithasu yn beth hawdd a diogel i'w wneud.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Wrth weithio gyda chydweithwyr o'r cyngor ac Aelodau'r Cynulliad, cawsom lwyddiant wrth ddarbwyllo Llywodraeth Cymru i newid rheolau cynllunio i roi mwy o reolaeth i'r cyngor dros geisiadau cynllunio tai amlfeddiannaeth. Yn dilyn y llwyddiant hwn, rwyf wedi gweithio gyda chydweithwyr o'r cyngor i roi Canllawiau Cynllunio Atodol effeithiol ar waith er mwyn diogelu'r Uplands rhag dwysedd tai amlfeddiannaeth, sy'n gallu gwrthsefyll apeliadau i'r arolygiaeth gynllunio yn erbyn yr awdurdod. Byddaf yn parhau i weithio dros Ganllawiau Cynllunio Atodol effeithiol. Wrth wneud hynny, rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i wasanaethu er budd holl breswylwyr Uplands, boed eu bod yn fyfyrwyr neu'n breswylwyr tymor hir.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Roeddwn yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi canlynol:

19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
18/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod cydbwysedd rhwng yr economi nos, y sector manwerthu a budd holl breswylwyr Uplands, boed y rhai sy'n breswylwyr tymor hir neu'r rhai sydd yma i astudio, er mwyn sicrhau bod Uplands yn parhau i fod yn gymuned gynaliadwy, ffyniannus a chydlynol.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (2016-2017)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 04.11.17 |